Ydych chi:

- yn gallu meithrin perthnasoedd cryf a pharhaol gyda phobl?
- yn drefnus, yn ddygn ac yn benderfynol o sicrhau llwyddiant?
- yn angerddol am helpu plant a phobl ifanc?

Os mai'r ateb yw 'ydw', gallai rôl **Swyddog Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr** fod yn union yr hyn rydych chi'n chwilio amdano.

**Ymunwch â'r gyfarwyddiaeth Ymgysylltu a Chodi Arian i wneud gwahaniaeth**

Credwn fod pob plentyndod yn werth ymladd drosto. Gyda dros 100 mlynedd o brofiad, a chryfder torfol ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein cefnogwyr a'n partneriaid, rydyn ni'n gweithio i ddod â cham-drin plant ac esgeulustod i ben am byth.

Daw dros 90 y cant o incwm y NSPCC o roddion gwirfoddol, felly rydyn ni'n dibynnu ar haelioni ac ymrwymiad anhygoel ein holl gefnogwyr, mawr a bach.

Byddwch chi'n gweithio fel rhan o un o nifer o dimau, sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â'n cefnogwyr a sicrhau eu bod nhw'n parhau i roi eu cefnogaeth. Byddwch chi'n gwneud hyn drwy arwain mentrau codi arian neu rannu ein cenhadaeth gyda'r rhai o'ch cwmpas, gall pob sgwrs a chysylltiad sbarduno newid.

Rydyn ni'n annog pawb ar draws y sefydliad i gymryd rhan, i deimlo'n hyderus wrth hyrwyddo ein hachos, a'n helpu i dyfu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnom i amddiffyn plant a rhoi'r dyfodol iddyn nhw y maen nhw'n ei haeddu.

Mae'r rôl amrywiol yn rhan o dîm Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr sy'n arwain y gwaith o gynhyrchu incwm drwy fyrddau gwirfoddoli rhanbarthol a chenedlaethol, mentrau codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr a chyflwyno digwyddiadau arbennig drwy ein pwyllgorau digwyddiadau o werth uchel. Mae'r gweithgareddau hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth wneud y mwyaf o incwm cynaliadwy, ymgysylltu ag uwch wirfoddolwyr, a chefnogi perthnasoedd hirdymor â chefnogwyr.

Byddwch yn cefnogi, ac yn arwain, twf a datblygiad Bwrdd Codi Arian Cymru sydd wedi'i sefydlu'n llwyddiannus ers dros 25 mlynedd. Mae'r bwrdd yn cefnogi codi dros £1m yn flynyddol gan amrywiaeth o gynulleidfaoedd o gefnogwyr ac yn hyrwyddo'r NSPCC ledled Cymru drwy drefnu digwyddiadau (codi arian ac ymgysylltu), sefydlu cysylltiadau newydd - yn bennaf unigolion o werth net uchel a phartneriaid corfforaethol - a chefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau'r NSPCC. Mae'r rôl hon yn allweddol i ysgogi a chefnogi Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd, uwch arweinwyr ysbrydoledig o bob cwr o Gymru, ac mae angen mewnbwn strategol a bod yn ymarferol wrth gyflawni gweithgareddau a digwyddiadau.

Os ydych chi'n cael eich cymell gan bwrpas, yn ffynnu mewn tîm cefnogol, ac eisiau cyfrannu at greu byd mwy diogel a disglair i bob plentyn, ymunwch â ni fel Swyddog Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr.

Er mai rôl o gartref yw hon, mae angen rhywfaint o deithio yng Nghymru ac ar draws Cymru (De Cymru yn benodol) ynghyd â theithio achlysurol i rannau eraill o'r wlad ar gyfer cyfarfodydd tîm, hyfforddiant ac i gefnogi'r tîm ehangach.

**Beth yw pwrpas y Swyddog Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr?**

Mae ein byrddau gwirfoddolwyr yn cynnwys unigolion dylanwadol, uchel eu proffil sy'n gwirfoddoli eu hamser a'u harbenigedd. Mae'r byrddau'n canolbwyntio ar ddefnyddio eu rhwydweithiau a'u dylanwad i sicrhau cyfleoedd cynhyrchu incwm drwy bartneriaethau corfforaethol, rhoddion mawr gan unigolion, cydweithio â brandiau a digwyddiadau codi arian, sydd i gyd yn cynhyrchu arian sylweddol i'r NSPCC.

Mae'r rôl hon yn chwarae rôl allweddol wrth gynhyrchu incwm i gefnogi cenhadaeth y NSPCC. Byddwch yn cyfrannu drwy’r canlynol:

- Codi arian sylweddol drwy gyflwyno mentrau codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr
- Datblygu a gofalu am berthnasoedd hirdymor â chefnogwyr
- Manteisio ar gysylltiadau aelodau'r bwrdd er budd y sefydliad ehangach

**Beth fyddaf yn ei wneud fel Swyddog Codi Arian?**

- Meithrin a rheoli perthnasoedd gydag uwch aelodau’r bwrdd ar draws sectorau amrywiol i wella eu hymgysylltiad a'u cefnogaeth hirdymor
- Nodi a sicrhau cyfleoedd codi arian o werth uchel drwy aelodau’r bwrdd a'u rhwydweithiau, gan ysgogi cynhyrchu incwm sylweddol
- Darparu cefnogaeth a rheolaeth weithredol ar fentrau a phrosiectau codi arian dan arweiniad gwirfoddolwyr, gan gynnwys digwyddiadau
- Gweithio ar y cyd ar draws gwahanol dimau ac adrannau i wneud y mwyaf o'r effaith a'r gwerth a ddarperir drwy ymgysylltu â'r bwrdd
- Cefnogi portffolio o ddigwyddiadau codi arian a stiwardiaeth dan arweiniad Bwrdd Codi Arian Cymru i ymgysylltu â chefnogwyr newydd a chefnogwyr cyfredol yng Nghymru a thu hwnt.

**Pa sgiliau sydd eu hangen arnaf i fod yn Swyddog Codi Arian ar y Bwrdd Gwirfoddolwyr?**

- Sgiliau meithrin perthnasoedd a rheoli rhanddeiliaid eithriadol
- Gallu cryf i flaenoriaethu tasgau'n effeithiol mewn amgylchedd deinamig
- Sylw di-fai i fanylion
- Hunan-gymhelliant gyda ffordd ragweithiol o weithio
- Trefnus iawn, gyda'r gallu i reoli prosiectau unigol
- Profiad o nodi a datblygu cyfleoedd codi arian newydd sy'n hyfyw yn fasnachol ac yn cynnig gwerth i'r ddwy ochr

**Pam ymuno â'r NSPCC?**

Bydd unrhyw un o'n pobl yn dweud wrthych fod gwneud gwahaniaeth i fywydau plant yn wobr enfawr ynddo'i hun. Ond rydyn ni'n gwybod ei fod yn fyd cystadleuol, ac mae'n bwysig teimlo eich bod chi'n cael eich gwerthfawrogi yn eich rôl ac yn derbyn buddion mwy ymarferol a phendant. Rydyn ni'n cynnig cyflogau sydd o leiaf yn cymharu â'r prif elusennau yn y DU, yn ogystal â'r buddion hyn.

- **Gwyliau blynyddol hael** - 29 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau banc i weithwyr llawn amser (pro-rata i weithwyr rhan-amser). 32 diwrnod y flwyddyn ar ôl pum mlynedd o wasanaeth parhaus.
- **Gostyngiadau i weithwyr** - Mae ein porth gostyngiadau yn rhoi mynediad ar-lein i chi i dros 3,000 o ostyngiadau a chynigion.
- **Rhaglen Cymorth i Weithwyr (EAP)** - gwasanaeth cymorth personol, annibynnol, am ddim. Gall ddarparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i gefnogi eich iechyd a'ch llesiant.
- **Pensiwn** - mae cronni pensiwn da yn rhywbeth rydyn ni eisiau eich helpu chi i'w gyflawni gyda'n cynlluniau pensiwn hyblyg ac effeithlon o ran treth.
- **Cynllun yswiriant bywyd -** bydd pob gweithiwr yn cael yswiriant bywyd o un gwaith eu cyflog, oni bai eu bod yn ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp y NSPCC, lle rhoddir yswiriant bywyd o bum gwaith eu cyflog i aelodau.

Ymunwch â ni a gwnewch wahaniaeth. Byddwch yn tyfu, yn cael eich herio, ac yn helpu i newid bywydau miliynau o bobl ifanc er gwell.

**Barod i wneud cais?**

Os mai dyma'r rôl i chi, cliciwch y botwm ‘gwneud cais’ i ddechrau eich siwrnai. Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth am bob cam recriwtio ar y dudalen Gyrfaoedd.

**Oes gennych chi gwestiynau o hyd am y rôl?**

Am sgwrs anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Sophie Garrett drwy e-bostio Sophie.Garrett@NSPCC.org.uk